General Dental Council



# Sut i roi gwybod am bryder ynghylch deintydd neu weithiwr deintyddol




Fersiwn Hawdd ei Ddeall
(EasyRead)

# Pwy ydym ni

Ni yw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Rydym ni'n gwirio pob deintydd ac unrhyw weithwyr deintyddol eraill yn y DU.



Rydym ni'n cadw rhestrau ohonyn nhw i gyd. Cofrestri yw'r enw ar rhain.




Mae angen i bob deintydd a gweithiwr deintyddol fod ar un o'n rhestrau er mwyn cael gwneud gwaith deintyddol yn y DU.




Mae hyn yn cynnwys:

- deintyddion



A gweithwyr deintyddol eraill:

- nyrsys deintyddol sy'n helpu deintyddion i wneud eu gwaith





- therapyddion orthodontig sy'n gwneud rhywfaint o waith deintyddol ar gais deintydd



- hylenyddion deintyddol sy'n helpu i gadw'ch dannedd yn lân a'ch ceg yn iach



- therapyddion deintyddol sy'n gwneud rhywfaint o waith deintyddol ar gais deintydd



- technegwyr deintyddol sy'n gwneud pob math o ddannedd gosod ar gais y deintydd

- technegwyr deintyddol clinigol a all helpu gyda dannedd gosod.



Ein prif waith yw sicrhau bod pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel wrth ymweld â'r deintydd neu weithwyr deintyddol eraill.


Rydym ni'n yn gwneud hyn drwy:





- gadw rhestrau o ddeintyddion a gweithwyr deintyddol sy'n cael gweithio yn y DU




- gosod safonau ar gyfer deintyddion a gweithwyr deintyddol



- ymchwilio i bryderon difrifol am ddeintyddion a gweithwyr deintyddol



- sicrhau bod yr hyfforddiant i ddarpar ddeintyddion a gweithwyr deintyddol yn dda




- sicrhau bod deintyddion a gweithwyr deintyddol yn dysgu’n barhaus.




Mae hyn i gyd wedi’i nodi yn y gyfraith.




Mae'n anghyfreithlon gweithio fel deintydd neu unrhyw fath o weithiwr deintyddol os nad ydych chi ar un o'n rhestrau ni.

Gallwch fynd i'n gwefan i weld pwy sydd ar ein rhestrau. **www.gdc-uk.org/searchregister**

Mae dolenni i'r rhyngrwyd ar y daflen hon. Nid yw'r rhain yn fersiynau Hawdd eu Deall.

## Pryderon am ddeintyddion neu weithwyr deintyddol






Os nad ydych chi'n defnyddio'r we, neu os oes angen unrhyw gymorth arnoch chi, ewch i'r adran gymorth ar ddiwedd y daflen hon.








Os ydych chi'n poeni nad yw deintydd neu weithiwr deintyddol yn gwneud ei waith yn iawn gallwch:

- wneud cwyn i'r unigolyn ei hun os gallwch chi


- gwneud cwyn i'r practis deintyddol gan ddefnyddio rheolau cwynion y practis. Gofynnwch i'r practis deintyddol sut i wneud hyn

- os buoch i weld deintydd neu weithiwr deintyddol y GIG, defnyddiwch reolau cwynion y GIG. Gofynnwch i'r practis deintyddol am gopi

- gofyn i ni ymchwilio i'r mater os yw'n fwy difrifol.




Mae rheolau penodol ar sut mae practis deintyddol yn ymdrin â chwynion. Mae rhagor o fanylion ar gael yma: **www.gdc-uk.org/complaint**





Yn y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, byddwn yn ymchwilio i bryderon mwy difrifol pan fydd rhywun yn:

1. achosi niwed i gleifion




2. achosi niwed i'w gydweithwyr neu aelodau eraill o'r cyhoedd



3. gwneud i bobl boeni am rai sy'n gweithio ym maes deintyddiaeth.



## Iawndal

Allwn ni ddim helpu unrhyw un i gael iawndal am rywbeth aeth o chwith.



Bydd angen i chi gael cymorth cyfreithiol eich hun ar gyfer hyn, ac mae'r rhestr o rai all helpu ar gael yma: **www.gdc-uk.org/organisations**

# Sut i roi gwybod am bryder



Os ydych chi'n credu bod eich pryder yn ddifrifol ac yn cyd-fynd ag un o'r tri rheswm uchod, dywedwch wrthym.




Os ydych chi'n defnyddio'r rhyngrwyd, cliciwch ar:

**www.gdc-uk.org/complaints**

## Cymorth




Os ydych chi angen cymorth i wneud hyn:

- gallwch ofyn i ffrind neu berthynas helpu, cyn belled â'ch bod yn cytuno i hyn





- ffoniwch ni ar **020 7167 6000**
- cysylltwch ag un o'r sefydliadau hyn. Cliciwch ar y ddolen berthnasol i'ch gwlad chi:


- Os ydych chi'n byw yn Lloegr, cysylltwch â'ch **Healthwatch** lleol





- Os ydych chi'n byw yn yr Alban, cysylltwch â'ch **Scottish Independent Advocacy Alliance** lleol




- Os ydych chi'n byw yng Nghymru, cysylltwch â'ch **Cefnogaeth Eiriolaeth Cymru** lleol




- Os ydych chi'n byw yng Ngogledd Iwerddon, cysylltwch â'ch **Patient and Client Council** lleol



# Diolchiadau

Cafodd y papur hwn ei ddylunio a'i gynhyrchu gan wasanaeth EasyRead, Inspired Services Publishing Ltd. Cyf ISL174 20. Rhagfyr 2020.
**www.inspiredservices.org.uk**

Mae'n bodloni'r Safon Hawdd ei Ddeall (EasyRead) Ewropeaidd.

**Your Voice Counts** - creu gwybodaeth Hawdd ei Deall.

Mae'r gwaith celf yn cynnwys deunydd o gasgliad EasyRead Inspired ac ni chewch ei ddefnyddio'n unrhyw le arall heb ganiatâd ysgrifenedig Inspired Services. **www.inspired.pics**